**EITEM AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**24ain Medi 2007**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2006-07 A'R LLYTHYR O GYNRYCHIOLAETH**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon 2006-2007 i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar 18 Mehefin 2007. Erbyn hyn mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'u diwygio'n unol â'r casgliadau o'r archwiliad a thrafodaethau dilynol ynghylch manylion paratoi'r cyfrifon, diffiniadau a chyflwyno eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

**2.** Ynghlwm i'r adroddiad hwn, fel atodiad 2, mae copi o ohebiaeth rhwng yr Archwilydd Allanol a mi ynglŷn â'r uchod. Mae'r llythyr yn egluro'r rheswm dros y llythyr o gynrychiolaeth.

**Gwybodaeth**

**3.** Mae'r diwygiadau i'r cyfrifon yn bennaf yn rhai cyflwyniadol, ond tynnir sylw Aelodau at y pwyntiau canlynol;

a) Mae'r dudalen gynnwys erbyn hyn yn cyfeirio at Adroddiad yr Archwilydd.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

b) Ar dudalen 4, paragraff cyntaf, mae'r rhwymedigaethau pensiwn wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r symiau sydd wedi cael eu cynnwys yn yr hysbysiad gan yr actiwarïaid.

c) Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer 2005/2006 wedi cael ei ddiwygio i gynnwys y cofnod Gohirio Grant y Llywodraeth o dan Incwm yn hytrach na'r Gwariant debydu.

ch) Mae'r ffigwr Dyledwyr ar y Fantolen, tudalen 16, wedi disgyn o £179k; mae hyn wedi ei wrthbwyso gan ostyngiad cyfatebol yn y Derbynebau Ymlaen Llaw.

d) O ganlyniad gwnaed newidiadau ym manylion y Datganiad o Gyfrifon a gwnaed amrywiol nodiadau i adlewyrchu'r sylwadau yn a) i ch) uchod.

dd) Mae nodyn 7 ar dudalen 19 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r symiau sy'n ddyledus yn unol â'r cynllun archwilio.

e) Mae'r cyfraniadau o'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Llif Arian, tudalen 32, wedi cael ei ostwng o £30k ac mae cofnod cyfatebol ar gyfer Gohirio Grant y Llywodraeth wedi cael ei gynnwys.

**4.** Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Datganiad o Gyfrifon 2006/2007 gan yr Awdurdod Tân ar Mehefin 18 2007 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac oherwydd nad oes newidiadau i'r datganiadau, gofynnir i Aelodau nodi'r diwygiadau yn unig. Fodd bynnag, mae'n ofyniad i'r Awdurdod gydnabod y Llythyr o Gynrychiolaeth anfonir i'r Archwilydd Allanol yn ffurfiol.

**Argymhelliad**

**5.** Bod Aelodau'n

**5.1** cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2006-07 (atodiad 1); ac yn

**5.2** cydnabod y Llythyr Sylwadau a anfonwyd i'r Archwilydd Allanol (atodiad 2).